TGAU

# CBAC TGAU
# Hanes

Cymeradwywyd gan Cymwysterau Cymru

## Canllawiau Addysgu: Uned 3 Opsiwn 3.5

Addysgu o 2026
Dyfarnu o 2028

Fersiwn 2 - Chwefror 2025



Nid yw'r cymhwyster hwn a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru ar gael i ganolfannau Lloegr.

Yn arbennig i Gymru.
Yn barod i'r byd.

Hoffai CBAC ddiolch i fyfyrwyr ac athrawon Ysgol Uwchradd Fitzalan, Caerdydd ac Ysgol Uwchradd Llanwern, Casnewydd am gymryd rhan yn y gwaith o greu'r cloriau hyn.

## Cynnwys

Cyflwyniad ........ 1
- Nodau'r Canllawiau Addysgu ........ 1
- Ffyrdd ychwanegol y gall CBAC gynnig cefnogaeth: ........ 1

Strwythur y cymhwyster ........ 2
Asesu ........ 3
- Crynodeb o'r Asesu ........ 3

Uned 3 Amcanion asesu a phwysoliadau ........ 3
Trosolwg o Uned 3: Opsiwn 3.5 Modern: Rwsia a'r Undeb Sofietaidd tua 1861 - tua 1953 ... 4
- Cynllun Dysgu ar gyfer Opsiwn 3.5 Modern: Rwsia a'r Undeb Sofietaidd tua 1861 - tua 1953 ........ 5

Profiadau Dysgu ........ 23
Cyfleoedd i ymgorffori elfennau o'r Cwricwlwm i Gymru ........ 24
Rhestr termau ar gyfer Opsiwn 3.5 Rwsia a'r Undeb Sofietaidd, tua 1861 - tua 1953 ...... 31

© WJEC CBAC Ltd. 2025

# CRYNODEB O'R ADDASIADAU

| Fersiwn | Disgrifiad | Rhif y dudalen |
|---|---|---|
| 2 | Addaswyd i, dyfarnu am y tro cyntaf yn Haf 2028 | 1 |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

## Cyflwyniad

Mae CBAC TGAU Hanes wedi'i gymeradwyo gan Cymwysterau Cymru ac mae ar gael i bob canolfan yng Nghymru. Bydd yn cael ei ddyfarnu am y tro cyntaf yn Haf 2028, gan ddefnyddio graddau A* i G.

### Nodau'r Canllawiau Addysgu

Prif nod y Canllawiau Addysgu yw cefnogi athrawon wrth iddynt gyflwyno manyleb newydd CBAC TGAU Hanes a chynnig arweiniad ar ofynion y cymhwyster a'r broses asesu. **Ni fwriedir i'r Canllawiau Addysgu fod yn ddogfen gynhwysfawr i gyfeirio ati** ond yn hytrach i gynnig cefnogaeth i athrawon proffesiynol wrth ddatblygu cyrsiau ysgogol a chyffrous sydd wedi'u teilwra i anghenion a sgiliau'r dysgwyr.Mae'r canllawiau'n cynnig gweithgareddau posibl yn yr ystafell ddosbarth a chysylltau i adnoddau digidol defnyddiol (gan gynnwys ein deunyddiau digidol ein hunain, sydd ar gael yn rhad ac am ddim, a rhai o ffynonellau allanol) i roi syniadau ar gyfer gwersi diddorol ac atyniadol.

### Ffyrdd ychwanegol y gall CBAC gynnig cefnogaeth:

- deunyddiau asesu enghreifftiol a chynlluniau marcio
- digwyddiadau dysgu proffesiynol
- adroddiadau arholwyr ar bob uned
- y gallu i gysylltu'n uniongyrchol â’r swyddog pwnc
- adnoddau ar-lein am ddim
- Dadansoddi Canlyniadau Arholiadau
- Adolygu Arholiadau Ar-lein.

© WJEC CBAC Ltd. 2025

## Strwythur y cymhwyster

Mae CBAC TGAU Hanes yn cynnwys pedair uned.Rhaid i'r cyfuniad o opsiynau a ddewiswyd ar gyfer Unedau 1, 2 a 3 gynnwys un uned oesoedd canol, un uned fodern gynnar ac un uned fodern.

Yn Uned 4, gall canolfannau ddewis ailadrodd cyfnod amser a astudiwyd yn flaenorol yn Unedau 1, 2 neu 3. **Fodd bynnag, ni ddylai'r testunau a ddewisir ar gyfer eu hastudio yn Uned 4 ailadrodd na gorgyffwrdd â chynnwys unrhyw un o'r unedau eraill a ddewisir.**

Cymhwyster unedol yw hwn ac nid yw'n cynnwys haenau. Nid oes hierarchaeth o ran trefn dysgu'r unedau.

| | Teitl yr uned | Math o Asesiad | Pwysoli |
|---|---|---|---|
| **Uned 1** | Astudiaeth fanwl o hanes Cymru | Arholiad ysgrifenedig | 30% |
| **Uned 2** | Astudiaeth fanwl o hanes Ewrop a/neu'r Byd | Asesiad Di-arholiad | 20% |
| **Uned 3** | Astudiaeth o gyfnod yn hanes y byd | Arholiad ysgrifenedig | 30% |
| **Uned 4** | Cymdeithas sy'n newid | Asesiad Di-arholiad | 20% |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

# Asesu

## Crynodeb o'r Asesu

| **Uned 3: Astudiaeth o gyfnod yn hanes y byd**<br>***Arholiad ysgrifenedig*: 1 awr**<br>**30% o'r cymhwyster**<br>60 marc |
|---|
| Bydd dysgwyr yn astudio un o'r chwe thestun hanesyddol canlynol i gynnal astudiaeth eang o gyfnod hanesyddol estynedig.<br><br>**Yr Oesoedd Canol**<br>**3.1** Y Llychlynwyr tua 750 - tua 1066<br>**3.2** Y Croesgadau tua 1095 - tua 1291<br>**Modern Cynnar**<br>**3.3** Ymerodraeth Songhai tua 1464 - tua 1591<br>**3.4** Yr Ymerodraeth Mughal tua 1526 - tua 1707<br>**Modern**<br>**3.5** Rwsia a'r Undeb Sofietaidd tua 1861 - tua 1953<br>**3.6** Newidiadau yng nghymdeithas yr Unol Daleithiau tua 1880 - tua 1980<br><br>Bydd cwestiynau gorfodol yn asesu pob opsiwn. Bydd y rhain yn canolbwyntio ar wybodaeth hanesyddol am y testun, cysyniadau hanesyddol yr ail drefn a dadansoddi a gwerthuso ffynonellau a dehongliadau hanesyddol. |

## Uned 3 Amcanion asesu a phwysoliadau

| | | |
|---|---|---|
| AA1 | Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o nodweddion y cyfnodau a astudiwyd | 10% |
| AA2 | Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth at gysyniadau hanesyddol megis achos a chanlyniad, parhad a newid, tebygrwydd a gwahaniaeth, ac arwyddocâd | 10% |
| AA3 | Dadansoddi, gwerthuso neu wneud penderfyniadau ar ddeunydd ffynhonnell, dehongliadau hanesyddol a dadleuon hanesyddol, gan syntheseiddio'r llinynnau hyn lle bo hynny'n briodol | 10% |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

## Trosolwg o Uned 3: Opsiwn 3.5 Modern: Rwsia a'r Undeb Sofietaidd tua 1861 - tua 1953

**Astudiaeth o gyfnod yn hanes y byd**
(30% o'r cymhwyster)

Pwrpas Uned 3 yw cynnig trosolwg o gyfnod hanesyddol estynedig gan alluogi dysgwyr i archwilio cysyniadau allweddol. Nod yr opsiwn hwn yw datblygu dealltwriaeth dysgwyr o sut y datblygodd Rwsia ac, yn ddiweddarach, yr Undeb Sofietaidd, yn ystod y cyfnod rhwng tua 1861 a thua 1953.

| Cyfnod amser | Opsiwn 3.5 | |
|---|---|---|
| Modern | 3.5 | Rwsia a'r Undeb Sofietaidd tua 1861 - tua 1953 |
| | 3.5.1 | Rheolaeth a dymchweliad Nicholas II. |
| | 3.5.2 | Y Chwyldro Bolsiefigaidd |
| | 3.5.3 | Rheolaeth Lenin |
| | 3.5.4 | Stalin |
| | 3.5.5 | Yr Ail Ryfel Byd a'i effeithiau |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

## Cynllun Dysgu ar gyfer Opsiwn 3.5 Modern: Rwsia a'r Undeb Sofietaidd tua 1861 - tua 1953

Darperir y cynllun dysgu hwn fel enghraifft ddarluniadol. Ei nod yw rhoi strwythur ac ysbrydoliaeth ond gellir ei addasu er mwyn bodloni anghenion unigryw, dewisiadau a dynameg dosbarthiadau unigol. Caiff athrawon eu hannog i addasu elfennau fel sy'n ofynnol i gyd-fynd â galluoedd a nodau dysgu eu myfyrwyr.

**Ar gyfer pob adran o gynnwys yn yr uned hon, mae CBAC hefyd yn darparu adnoddau dysgu cyfunol a threfnwyr gwybodaeth. Gellir dod o hyd i'r rhain yma: [https://adnoddau.cbac.co.uk/](https://adnoddau.cbac.co.uk/)**

| 3.5 Cefndir: Tsaraeth ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg<br>(Mae pob opsiwn yn dechrau gydag adran gefndirol. Bwriad yr adrannau hyn yw rhoi cyd-destun angenrheidiol i ddysgwyr er mwyn iddynt gael mynediad at y testun hanesyddol. Ni fydd dysgwyr yn cael eu hasesu'n uniongyrchol ar gynnwys yr adrannau cefndirol). | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o: | Gwybodaeth | Gweithgareddau a Chanlyniadau | Adnoddau | Amser a awgrymir (oriau) |
| • daearyddiaeth, llywodraeth a chymdeithas Rwsia ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. | Safle Ymerodraeth Rwsia mewn perthynas â Dwyrain Ewrop.<br><br>Absoliwtiaeth a rôl y "Zemstvos".<br><br>Dosbarthiadau cymdeithasol ac effaith gymdeithasol diwydianeiddio. | **Gweithgaredd:**<br>Dadansoddwch y mapiau yn y cyflwyniad i ddeall Safle Ymerodraeth Rwsia mewn perthynas â Dwyrain Ewrop.<br><br>Rhestrwch swyddogaethau'r Zemstvos.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall ble oedd Rwsia mewn perthynas â gweddill Ewrop, natur gyfyngedig y system wleidyddol a bod Rwsia wedi diwydianeiddio yn hwyrach na grymoedd Ewropeaidd eraill. | **Cyflwyniad:**<br>The Last Romanov: Nicholas II and the End of Imperial Russia (1894-1917)<br><br>**Fideo(s):**<br>Simon Sebag Montefiore: Hope, chaos & autocracy in Russia<br><br>**Gwefan(nau):**<br>Zemstvo – Wikipedia<br><br>Russian industrialisation | 1.5 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **Gweithgaredd uwch:**<br>Cymharwch ddatblygiad diwydiannol Rwsia â grymoedd arweiniol eraill.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr lunio casgliadau am arwyddocâd safle Rwsia fel grym Ewropeaidd ac Asiataidd a chyflymder a maint y diwydianeiddio. | | |
| • teyrnasiad Alexander II ac Alexander III. | Y diwygiadau a gyflwynwyd o dan Alexander II ac effaith ei ladd yn 1881.<br><br>Gormes o dan Alexander III, 1881-1894. | **Gweithgaredd:**<br>Lluniwch linell amser y diwygiadau a rhestrwch y prif grwpiau chwyldroadol.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall cyfyngiadau sut roedd Zemstvos yn gweithio a pham yr arweiniodd Rhyddfreinio'r Taeogion at broblemau a natur y gormes gwleidyddol.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Nodwch y prif arweinwyr a nodau chwyldroadol.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr lunio casgliadau am raddau a chyfyngiadau grymoedd y | **Fideo(s):**<br>13th March 1881: Assassination of Tsar Alexander II of Russia<br><br>Alexander II: History of Russia in 100 Minutes<br><br>Alexander III: History of Russia in 100 Minutes<br><br>**Erthygl(au)**<br>Alexander II (1818-1881)<br><br>Great Reforms (Russia) \| Encyclopedia.com<br><br>Alexander III – History Learning Site | 1.5 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Zemstvos a phwysigrwydd grwpiau chwyldroadol. | | |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

<table>
<tr><th colspan="5">3.5.1 Rheolaeth a dymchweliad Nicholas II.</th></tr>
<tr><th>Dylai dysgwyr ddeall:</th><th>Gwybodaeth</th><th>Gweithgareddau a Chanlyniadau</th><th>Adnoddau</th><th>Amser a awgrymir (oriau)</th></tr>
<tr><td><ul><li>natur yr heriau gwleidyddol, economaidd a chymdeithasol yn ystod teyrnasiad Nicholas, gan gynnwys:<ul><li>y cefndir domestig i'r Rhyfel rhwng Rwsia a Japan, Sul y Gwaed a Chwyldro 1905</li><li>maint a chyfyngiadau'r diwygio gwleidyddol, economaidd a chymdeithasol.</li></ul></li></ul></td><td>Effaith gormes gwleidyddol - diwydianeiddio a chywilydd y golled i Japan.<br><br>Digwyddiadau a chanlyniadau “Sul y Gwaed”, yn enwedig ar y canfyddiad traddodiadol o'r Tsar.<br><br>“Maniffesto Hydref” a'i effaith hirdymor gyfyngedig.</td><td>Gweithgaredd<br>Lluniwch ddiagram corryn yn dangos y problemau amrywiol a oedd yn wynebu'r Tsar.<br><br>Canlyniad:<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall natur a graddau'r pwysau a'r problemau a oedd yn wynebu Nicholas II.<br><br>Gweithgaredd uwch<br>Cymharwch ac esboniwch lwyddiannau a diffygion polisïau gweinidogion arweiniol fel Witte a Stolypin.<br><br>Canlyniad uwch:<br>Gall dysgwyr lunio casgliadau am arwyddocâd diwygiadau a geisiwyd a'r Prif Weinidogion a wasanaethodd y Tsar.</td><td>Gwefan(nau):<br>Russia in Transition, 1905-1924<br><br>Nicholas II (1868-1918)<br><br>The October Manifesto and the Fundamental Laws - Attempts to strengthen Tsarism, 1905-1914 BBC Bitesize<br><br>Reforms of Stolypin - Attempts to strengthen Tsarism, 1905-1914 - Higher History Revision - BBC Bitesize<br><br>Fideo(s):<br>Nicholas II: History of Russia in 100 Minutes<br><br>22nd January 1905: Bloody Sunday</td><td>2 awr</td></tr>
</table>

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| • sut y cyfrannodd y Rhyfel Byd Cyntaf at chwalu cyfundrefn y Tsar, gan gynnwys:<br>• penderfyniad Nicholas i reoli'r rhyfel yn bersonol a dylanwad Rasputin dros y Tsarina, Alexandra<br>• Chwyldro Mawrth [Chwefror] 1917 ac ymddiorseddiad Nicholas. | Y problemau milwrol, cymdeithasol ac economaidd a oedd yn wynebu Rwsia wrth fynd i ryfel.<br><br>Effaith cyfyngiadau personol Nicholas a'r anfodlonrwydd ar y "Ffrynt Cartref".<br><br>Y digwyddiadau a arweiniodd at yr ymddiorseddiad a'r methiant i sicrhau Tsar newydd. | **Gweithgaredd:**<br>Lluniwch linell amser yn dangos sut y datblygodd problemau milwrol Rwsia yn ystod y rhyfel.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall sut y daeth Rwsia yn rhan o'r Rhyfel Byd Cyntaf, pam y perfformiodd byddin Rwsia mor wael a pham yr aeth y sefyllfa ar y Ffrynt Cartref yn broblem.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Aseswch bwysigrwydd cymharol y ffactorau a arweiniodd at gwymp y Tsar.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr lunio casgliadau am arwyddocâd methiannau personol Nicholas a dylanwad y Tsarina. | **Fideo(s):**<br>Grigori Rasputin Biography<br><br>BBC Two - Bitesize: History, Russia's involvement in World War I<br><br>**Gwefan(nau):**<br>Civil-Military Relations during World War I (Russian Empire)<br><br>BBC – History – World Wars: War and Revolution in Russia 1914 - 1921<br><br>Impact of World War One - February Revolution - Causes, events and effects - BBC Bitesize | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| • effaith y Rhyfel Byd Cyntaf ar Rwsia, gan gynnwys:<br>• chwalfa gymdeithasol ac economaidd a phrinder hanfodion sylfaenol<br>• twf Sofiet Petrograd a Lenin yn dychwelyd i Rwsia ar ôl cyfnod fel alltud. | Problemau parhaus y Llywodraeth Dros Dro.<br><br>Trotsky a grym Petrograd Sofietaidd.<br><br>“Thesis Ebrill” Lenin. | **Gweithgaredd:**<br>Lluniwch siart gweledol yn cysylltu problemau'r Llywodraeth Dros Dro â'u canlyniadau.<br><br>Gweithiwch mewn parau i ddadansoddi'r dadleuon yn Thesis Lenin ac aseswch eu natur radicalaidd.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall pam y trechwyd Rwsia yn 1917 a pham y wynebodd y Llywodraeth Dros Dro anhawster yn sefydlogi'r sefyllfa.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Aseswch arwyddocâd “Thesis Ebrill” Lenin mewn perthynas â methiannau'r Llywodraeth Dros Dro.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr lunio casgliadau am y penderfyniadau a gymerwyd gan y Llywodraeth Dros Dro a phwysigrwydd dychweliad Lenin. | **Fideo(s):**<br>The Return of Vladimir Lenin<br><br>Lenin's April Theses<br>1917 October Revolution<br><br>**Gwefan(nau):**<br>Post-war Economies (Russian Empire)<br><br>The Provisional Government | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| 3.5.2 Y Chwyldro Bolsiefigaidd | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dylai dysgwyr ddeall: | Gwybodaeth | Gweithgareddau a Chanlyniadau | Adnoddau | Amser a awgrymir (oriau) |
| • digwyddiadau allweddol Chwyldro Bolsiefigaidd 1917, gan gynnwys:<br>  • Dyddiau Gorffennaf a chwymp y Llywodraeth Dros Dro.<br>  • y cyrch ar y Palas Gaeaf. | Esgyniad grym y Blaid Folsiefigaidd ar ôl dychweliad Lenin a Trotsky yn ymuno â'r Blaid.<br><br>Effaith anniddigrwydd a "Helynt Kornilov" ar gwymp y Llywodraeth Dros Dro.<br><br>Y Bolsieficiaid yn cipio grym. | **Gweithgaredd:**<br>Lluniwch linell amser o ddigwyddiadau o ymddiorseddiad Nicholas i Chwyldro Hydref.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall sut y cwympodd y Llywodraeth Dros Dro a pham yr esgynnodd y Bolsiefigiaid mewn pwysigrwydd.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Esboniwch pam y llwyddodd y Bolsiefigiaid i gipio grym er nad oedd ganddynt gefnogaeth eang iawn.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr lunio casgliadau am arwyddocâd y Bolsiefigiaid yn cipio grym. | **Gwefan(nau):**<br>October Revolution: Causes, events, effects – BBC Bitesize<br><br>1917 – Seventeen Moments in Soviet History<br><br>**Fideo(s):**<br>How did the Bolsheviks Take Russia? | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| • cwrs y Rhyfel Cartref, gan gynnwys:<br>  • gwendidau a rhaniadau'r Gwynion ac effaith ymyrraeth gan wledydd tramor<br>  • effeithiolrwydd Trotsky fel Commissar dros Ryfel a'r rhesymau y tu ôl i'r fuddugoliaeth gomiwnyddol. | Y rhesymau dros fethiant ymdrechion cynnar i ddiorseddu'r llywodraeth Folsiefigaidd.<br><br>Arweinydiaeth Trotsky o'r Fyddin Goch a gwendidau ei wrthwynebwyr.<br><br>Lladd y Romanoviaid. | **Gweithgaredd:**<br>Defnyddiwch y wybodaeth yn yr erthyglau a'r fideos ategol i lunio tabl yn dangos cryfderau a gwendidau'r grymoedd gwrthwynebol.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall sut yr enillodd y Fyddin Goch y rhyfel a pham y cafodd y Tsar a'i deulu eu lladd.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Esboniwch natur y problemau a oedd yn wynebu Bolsiefigiaid mewn perthynas â'r Romanoviaid a sut y gwnaed y penderfyniad yn y pen draw i ladd y teulu cyfan.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr lunio casgliadau am bwysigrwydd perthynol y ffactorau a arweiniodd at ladd y Teulu Brenhinol. | **Fideo(s):**<br>Brutal Execution of the Romanovs: History<br><br>The Russian Civil War: Every Other Day<br><br>Why the Reds WON the Russian Civil War against the Whites<br><br>**Erthygl(au):**<br>Leadership of the Reds – Reasons for the victory of the Reds in the Civil War - BBC Bitesize<br><br>Leadership of the Whites – Reasons for the victory of the Reds in the Civil War - BBC Bitesize<br><br>Impact of foreign intervention – Reasons for the victory of the Reds in the Civil War - BBC Bitesize | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| • pogromau yn ystod Chwyldro 1917 gan gynnwys:<br>◦ cefndir y grwpiau lleiafrifol ethnig a sut y cawsant eu trin<br>◦ trais gwrth-Semitig. | Y cysyniad o "Elynion y Bobl" a goblygiadau hyn i leiafrifoedd cenedlaethol.<br><br>Gwreiddiau dwfn gwrth-semitiaeth yn Rwsia a'r gwrthdaro rhwng polisi swyddogol Bolsiefigaidd a gelyniaeth ar lawr gwlad. | **Gweithgaredd:**<br>Nodwch brif ddioddefwyr yr erledigaeth a natur eu dioddefaint.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall cwmpas a natur yr erledigaeth a'r rhesymau pam y digwyddodd.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Dadansoddwch bwysau croes pragmatiaeth ac ideoleg a oedd yn wynebu'r hierarchaeth Bolsiefigaidd.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr lunio casgliadau am syniadau'r arweinyddiaeth Folsiefigaidd o gymharu â lluoedd eu dilynwyr. | **Fideo(s):**<br>The Russian Revolution and the Perception of the Jews<br><br>**Erthygl(au):**<br>Pogroms - Meaning, Russia & Jewish \| HISTORY<br><br>**Podlediad(au):**<br>A History of Hate – Pogroms: Anti-Semitism, Revolution and Civil War – BBC Sounds | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| 3.5.3 Rheolaeth Lenin | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dylai dysgwyr ddeall: | Gwybodaeth | Gweithgareddau a Chanlyniadau | Adnoddau | Amser a awgrymir (oriau) |
| • polisi Comiwnyddiaeth Ryfel, gan gynnwys:<br>  • gormes a meddiant gorfodol<br>  • gwrthwynebiad cynyddol i'r system; Gwrthryfel Tambov. | Sut y gweithredodd ac y cynorthwyodd Comiwnyddiaeth Ryfel at ymdrechion y rhyfel – cwmpas ei nodau.<br><br>Twf y gwrthwynebiad i ymateb y llywodraeth. | **Gweithgareddau:**<br>Bydd dysgwyr yn llunio diagram neu ffeithlun gweledol i ddangos:<br><br>• Chwe egwyddor Comiwnyddiaeth Ryfel<br>• Y rhesymau pam y rhoddwyd y polisïau hyn ar waith (e.e. y Rhyfel Cartref, nodau rheolaeth ganolog Bolsiefigaidd).<br>• Canlyniadau Comiwnyddiaeth Ryfel, gan gynnwys gwrthwynebiad gan y werin (Gwrthryfel Tambov), gweithwyr (streiciau) a Gwrthryfel Kronstadt.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall beth oedd Comiwnyddiaeth Ryfel a pham yr arweiniodd at wrthwynebiad.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Nodwch faterion a digwyddiadau penodol ac aseswch ymateb y llywodraeth – gellir cwblhau hyn yn unigol neu fel tasg grŵp. | **Fideo(s):**<br>The Revolutionary Sailors of Kronshtadt<br><br>**Gwefan(nau):**<br>War Communism – History Learning Site<br><br>1921 – Seventeen Moments in Soviet History<br><br>Explaining Lenin's Policy of War Communism and the New Economic Policy – Explaining History<br><br>The Kronstadt Rebellion<br><br>Peasant uprisings | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr lunio casgliadau am bwysigrwydd natur y gwrthwynebiad ac arwyddocâd ymateb Lenin a Trotsky. | | |
| • newyn 1921-1922, gan gynnwys:<br>• sychder, cynaeafau gwael a nifer y marwolaethau<br>• sefyllfa economaidd a chymdeithasol yn dirywio a diwedd Comiwnyddiaeth Ryfel. | Natur y problemau economaidd cynyddol, y rhesymau drostynt a'u heffaith ar yr arweinyddiaeth.<br><br>Y rhesymau dros ddiwedd Comiwnyddiaeth Ryfel. | **Gweithgaredd:**<br>Bydd dysgwyr yn llunio llinell amser o ddigwyddiadau a pholisïau allweddol rhwng 1917 a 1922, gan ganolbwyntio ar sut y cyfrannodd polisïau Comiwnyddiaeth Ryfel ar broblemau economaidd fel llai o gynnyrch amaethyddol a phrinder bwyd.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall y problemau economaidd a sut y cyfrannodd Comiwnyddiaeth Ryfel atynt.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Aseswch lwyddiannau a methiannau perthynol Comiwnyddiaeth Ryfel a'i arwyddocâd ar gyfer y dyfodol.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr lunio casgliadau am effaith ehangach Comiwnyddiaeth Ryfel a pham y rhoddwyd y gorau iddo. | **Fideo(s):**<br>Feeding an Adversary: The Great Famine<br><br>**Erthygl(au):**<br>The Great Famine of 1921<br><br>Explaining Lenin's Policy of War Communism and the New Economic Policy<br><br>War Communism: Lenin's Plan to Bolster the Red Army \| History Hit | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| • Polisi Economaidd Newydd Lenin gan gynnwys:<br>• amcanion a dulliau'r Polisi Economaidd Newydd<br>• maint ei lwyddiant erbyn 1925 a'r rhesymau dros ddod â'r polisi i ben. | Y syniadau y tu ôl i'r Polisi Economaidd Newydd a sut roedd yn gweithio yn ymarferol.<br><br>Effeithiau cadarnhaol a negyddol y Polisi Economaidd Newydd. | **Gweithgaredd:**<br>Lluniwch restr o dermau'r Polisi Economaidd Newydd gan ddangos sut y newidiwyd rhannau gwahanol o'r economi.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall prif ddarpariaethau'r Polisi Economaidd Newydd a pham yr oedd yn ddadleuol ymysg rhai Bolsiefigiaid.<br><br>**Gweithgaredd uwch**<br>Esboniwch effeithiau cadarnhaol a negyddol y Polisi Economaidd Newydd ac esboniwch sut yr aeth Lenin ati i gyfiawnhau'r Polisi Economaidd Newydd.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr lunio casgliadau am lwyddiannau a methiannau perthynol y Polisi Economaidd Newydd. | **Fideo(s):**<br>21st March 1921: The New Economic Policy introduced by Vladimir Lenin<br><br>**Gwefan(nau):**<br>The New Economic Policy (NEP) – Alpha History<br><br>Explaining Lenin's Policy of War Communism and the New Economic Policy – Explaining History | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| 3.5.4 Stalin | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dylai dysgwyr ddeall: | Gwybodaeth | Gweithgareddau a Chanlyniadau | Adnoddau | Amser a awgrymir (oriau) |
| • esgyniad Stalin, gan gynnwys:<br>◦ penodi Stalin yn Ysgrifennydd Cyffredinol a sut y defnyddiodd y rôl honno<br>◦ pryderon cynyddol Lenin am Stalin a'i sylwadau am Stalin yn ei ewyllys. | Galluoedd Stalin a'i esgyniad o fewn y Blaid.<br><br>Y tensiwn cynyddol rhwng Lenin a Stalin ac effaith "Ewyllys" Lenin. | **Gweithgaredd:**<br>Lluniwch linell amser yn dangos gyrfa Stalin yn y blaid hyd at farwolaeth Lenin.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall pam yr esgynnodd Stalin yn y Blaid a pham y penododd Lenin ef i safle pwysig.<br><br>**Gweithgaredd uwch**<br>Esboniwch pam yr oedd gan Lenin bryderon am Stalin a natur y rhybuddion a wnaeth yn ei "Ewyllys".<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr lunio casgliadau am arwyddocâd perthynas Stalin â Lenin. | **Fideo(s):**<br>Stalin – BBC Bitesize<br><br>Joseph Stalin: Dictator<br><br>1924 – Seventeen Moments in Soviet History<br><br>**Gwefan(nau):**<br>From Total Obscurity to Infamous Dictator: Why Stalin Was More Clever and Cunning Than You Think \| The York Historian<br><br>Excerpts from Lenin's political testament (1922)<br><br>Lenin's Testament — a summary. In December 1922, while recovering from… \| by History In An Hour \| Medium<br><br>How Joseph Stalin became the leader of the Soviet Union - DailyHistory.org | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| • cael gwared ar wrthwynebwyr Trotsky a Stalin o'r Politburo, gan gynnwys:<br>• Lleihau grymoedd y Politburo<br>• Stalin yn trechu'r gwrthwynebwyr Adain Chwith. | Y rhesymau dros y cynnydd yng ngrym Stalin er gwaethaf "Ewyllys" Lenin.<br><br>Y dulliau a ddefnyddiwyd gan Stalin i ymyleiddio Trotsky a dileu gwrthwynebiad.<br><br>Y cysyniad o "Sosialiaeth mewn Un Wlad". | **Gweithgaredd:**<br>Disgrifiwch bersonoliaethau a nodweddion gwahanol Stalin a Trotsky a dangoswch sut yr effeithiodd hyn ar ganlyniad y gystadleuaeth dros rym.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall sut y llwyddodd Stalin i oresgyn effaith Ewyllys Lenin a pham y methodd Trotsky wrthwynebu grym cynyddol Stalin.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Cymharwch a chyferbyniwch y dulliau gwahanol o adeiladu sosialaeth.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr lunio casgliadau am arwyddocâd "Sosialaeth mewn Un Wlad" o gymharu â "Chwyldro Parhaol". | **Fideo(s):**<br>Trotsky vs. Stalin: The Struggle for Lenin's Succession (1924-1929)<br><br>**Gwefan(nau):**<br>History: From One Student to Another - How did Stalin consolidate his power between 1922 and 1929?<br><br>The Struggle for Power: Stalin against Trotsky, 1921-1927 \| Between The World Wars - Big Site of History<br><br>Stalin vs Trotsky: The Soviet Union at a Crossroads | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| • bywyd o dan Stalin, gan gynnwys:<br>• polisi Cyfunoliaeth, y Cynlluniau Pum Mlynedd, y cyrchoedd gwared<br>• defnydd Stalin o berswâd a gorfodaeth. | Y rhesymau dros ymgyrch Stalin dros foderneiddio mewn diwydiant ac amaethyddiaeth.<br><br>Effaith y gyfundrefn dotalitaraidd a chyrchoedd gwared Stalin ar y lluoedd arfog – y Blaid a phobl gyffredin.<br><br>Arddull ac ansawdd arweinyddiaeth Stalin. | **Gweithgaredd:**<br>Rhestrwch y dulliau a ddefnyddiwyd ym mholisïau Cyfunoliaeth a'r Cynlluniau Pum Mlynedd ac esboniwch pam y mabwysiadodd Stalin y polisïau a'r cyrchoedd gwared hyn.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall nodau a dulliau ymgyrch Stalin dros foderneiddio.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Lluniwch siart yn dangos llwyddiannau a methiannau'r polisïau hyn, aseswch arwyddocâd y cyrchoedd gwared a phroses Stalin o'u cyfarwyddo'n bersonol.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr lunio casgliadau ynghylch canlyniadau'r polisïau hyn. | **Gwefan(nau):**<br>Collectivization – Britannica Money<br><br>1929 – Seventeen Moments in Soviet History<br><br>1934 – Seventeen Moments in Soviet History<br><br>1936 – Seventeen Moments in Soviet History<br><br>The impact and legacy of Russian collectivisation – History Skills | 3 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| 3.5.5 Yr Ail Ryfel Byd a'i effeithiau | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dylai dysgwyr ddeall: | Gwybodaeth | Gweithgareddau a Chanlyniadau | Adnoddau | Amser a awgrymir (oriau) |
| • y berthynas rhwng yr Almaen a'r Undeb Sofietaidd gan gynnwys:<br>• Pact y Natsïaid a'r Sofietiaid<br>• Ymgyrch Barbarossa a goresgyniad yr Undeb Sofietaidd. | Cytundeb Rapallo 1922 a'i effaith.<br><br>Effaith esgyniad Hitler i rym yn yr Almaen ar yr Undeb Sofietaidd.<br><br>Y rhesymau dros Bact y Natsïaid a'r Sofietiaid a chanlyniadau ymlyniad Stalin iddo hyd at y goresgyniad yn 1941. | **Gweithgaredd:**<br>Rhestrwch y termau sy'n dangos y consesiynau a'r ymgymeriadau ar y ddwy ochr a nodwch pam y cytunodd Stalin i Bact y Natsïaid a'r Sofietiaid.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall telerau a goblygiadau Pact y Natsïaid a'r Sofietiaid.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Esboniwch pam y cynhaliodd Stalin Bact y Natsïaid a'r Sofietiaid er gwaethaf y dystiolaeth o fwriadau'r Almaen ac effaith y telerau ar y rhyfel ar y Ffrynt Dwyreiniol.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Bydd dysgwyr yn asesu arwyddocâd tymor hirach telerau Pact y Natsïaid a'r Sofietiaid. | **Map(iau):**<br>Eastern Europe after the German-Soviet Pact, 1939-1940 - Holocaust Encyclopedia<br><br>**Fideo(s):**<br>Operation Barbarossa: Germany's invasion of the Soviet Union – Britannica<br><br>**Gwefan(nau):**<br>1943 – Seventeen Moments in Soviet History | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| • trechu byddin yr Almaen gan gynnwys:<br>• methiannau strategol yn null ymladd yr Almaen yn y rhyfel ar ffrynt Rwsia<br>• Leningrad, Stalingrad, a byddin yr Almaen yn encilio. | Maint y golled gychwynnol a wynebodd y lluoedd Sofietaidd.<br><br>Cefnogaeth y cynghreiriaid a chamgymeriadau strategol Hitler.<br><br>Amddiffyniad llwyddiannus y dinasoedd allweddol ac ymestyniad byddin y Sofietiaid ar draws dwyrain Ewrop. | **Gweithgaredd:**<br>Esboniwch sut y cynorthwyodd y Cynghreiriaid yr Undeb Sofietaidd i oroesi ymosodiad Byddin yr Almaen.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall effaith gychwynnol ymosodiad yr Almaen a pham y llwyddodd byddin Rwsia i adfer.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Aseswch ac esboniwch bwysigrwydd perthynol llwyddiannau Sofietaidd yn hytrach na methiannau'r Almaen.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr lunio casgliadau ynghylch canlyniad y rhyfel ar y Ffrynt Dwyreiniol. | **Fideo(s):**<br>Battle of Stalingrad, Eastern Front, World War II - Britannica<br><br>**Gwefan(nau):**<br>Why Did Operation Barbarossa Fail – WW2 1941<br><br>History Through the Viewfinder \| The National WWII Museum \| New Orleans<br><br>German Defeat at Stalingrad \| Holocaust Encyclopedia<br><br>Hitler's Greatest Mistake: Invading Russia \| The National Interest | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| • ailadeiladu ar ôl y rhyfel, gan gynnwys:<br>• gwrthod Cymorth Marshall a meddiant gorfodol adnoddau diwydiannol a naturiol yr Almaen<br>• gorfodi cyfundrefnau comiwnyddol yn nwyrain Ewrop, a Chytundeb Warsaw. | Effaith buddugoliaeth y Sofietiaid ar y Ffrynt Dwyreiniol.<br><br>Tensiwn cynyddol rhwng yr Undeb Sofietaidd a'i gyn gynghreiriaid.<br><br>Sefydlu'r bloc Sofietaidd, y "Llen Haearn – problem Berlin ranedig – NATO a Chytundeb Warsaw. | **Gweithgaredd:**<br>Nodwch pa feysydd a ddaeth yn rhan o'r Undeb Sofietaidd:<br>• a) gyda chytundeb UDA/y DU<br>• b) heb gytundeb UDA/y DU, a rhestrwch y gwledydd eraill hynny y gorfodwyd iddynt fabwysiadu cyfundrefnau comiwnyddol.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall sut y meddiannodd y fyddin Sofietaidd ddwyrain Ewrop a pham y torrodd y cysylltiadau â'u cyn gynghreiriaid.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Aseswch bwysigrwydd cymharol gosod cyfundrefnau Comiwnyddol yn nwyrain Ewrop a ffactorau eraill o ran dechrau a datblygiad y Rhyfel Oer.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr lunio casgliadau ynghylch gelyniaeth ar ôl y rhyfel. | **Fideo(s):**<br>Berlin Airlift: How 'Candy Bombers' Saved West Berlin – Britannica<br><br>**Gwefan(nau):**<br>1947 – Seventeen Moments in Soviet History<br><br>Reactions to Soviet Expansion – The Cold War origins 1941-56 BBC Bitesize<br><br>The Marshall Plan: Definition, Date & Cold War - HISTORY<br><br>Understanding the Iron Curtain: A Historical Overview of Divisions - Total Military Insight | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

## Profiadau Dysgu

Dylid annog dysgwyr i ystyried y profiadau a'r sgiliau dysgu canlynol i ddatblygu eu dealltwriaeth, gwerthfawrogiad a'u hymwybyddiaeth o gynnwys y testun ymhellach. Mae'r wybodaeth yn y tabl isod yn darparu cyfleoedd i athrawon integreiddio'r profiadau dysgu yn rhan o'u proses o gyflwyno'r pwnc.

| Profiad Dysgu | Ymhelaethiad o'r Profiad Dysgu |
|---|---|
| cymryd rhan mewn ymweliadau addysgol wyneb yn wyneb neu'n ddigidol | Arddangosfa gan Tate Modern:<br>Red Star Over Russia<br>Chwyldro mewn diwylliant gweledol yn 1905-55 yn ymdrin â hanes gweledol Rwsia a'r Undeb Sofietaidd o 1905 hyd at farwolaeth Stalin:<br>Red Star Over Russia \| Tate Modern<br><br>Archif o gyfryngau digidol:<br>Find an object \| Imperial War Museums |
| meithrin empathi, goddefgarwch, cydymdeimlad a chwilfrydedd drwy astudio gwahanol gyd-destunau hanesyddol | Arweiniwch ddysgwyr drwy brofiadau ofnadwy'r bobl gyffredin, er enghraifft, yn ystod y Rhyfel Cartref a newynau bwriadol fel Wcráin yn y 1930au. |
| gweithio ar y cyd | Mae tasgau grŵp a awgrymwyd yn y Cynllun Gwaith yn dangos nifer o gyfleoedd i gydweithio wrth astudio'r uned hon.<br><br>Mae cyfleoedd i gynnig y profiad dysgu hwn ar gael yn:<br>• 3.5.3 Gellid gwneud y gweithgaredd ar wrthwynebiad i Gomiwnyddiaeth Ryfel mewn grwpiau yn dibynnu ar argaeledd dysgwyr datblygedig i'w hwyluso.<br>• 3.5.4 Gellid gwneud y gweithgaredd ar ymgyrch Stalin dros foderneiddio yn y 1930au gyda grwpiau llai yn cymryd agweddau gwahanol. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

## Cyfleoedd i ymgorffori elfennau o'r Cwricwlwm i Gymru

## Opsiwn 3.5 Modern: Rwsia a'r Undeb Sofietaidd tua 1861 - tua 1953

| Llinynnau Cwricwlwm i Gymru | |
|---|---|
| **Themâu sy'n trawstorri** | |
| Cyd-destunau Lleol, Cenedlaethol a Rhyngwladol | Mae **Uned 3** yn rhoi chwe thestun hanesyddol gwahanol sy'n ymwneud â hanes y byd i ganolfannau. Mae'r testunau dewisol yn rhoi cyfleoedd i wella dealltwriaeth dysgwyr o'r byd a phrofiadau amrywiol ei bobloedd. Mae'r opsiynau yn golygu y gellir astudio rhanbarthau wedi'u hymyleiddio o'r byd, hanes pobloedd a ddisodlwyd a theyrnasoedd a anghofiwyd, yn enwedig gwledydd yn y De global.<br><br>Mae Opsiwn 3.5 Rwsia a'r Undeb Sofietaidd, tua 1861 - tua 1953 yn galluogi canolfannau a dysgwyr i archwilio hanes modern cynnar yng Ngogledd Ewrop a Gorllewin Asia. Gall dysgwyr ddeall effaith rhyfel a dadleoli economaidd a sut mae pobl gyffredin yn dioddef mewn gwrthdaro. Mae'r uned hon yn cynnig dealltwriaeth o natur grym gwleidyddol a dulliau o'i gam-drin yn ogystal â dangos sut mae ideolegau yn effeithio ar gymdeithas a natur gadarnhaol a negyddol eu heffeithiau |
| Addysg Hawliau Dynol ac Amrywiaeth | Mae'r uned yn cynnig y cyfle i ddysgwyr ystyried natur hawliau dynol sylfaenol yng nghyd-destun system lywodraethu Ymerodrol ac awtocrataidd ac mewn system lywodraethu sy'n seiliedig ar egwyddorion ideolegol anhyblyg o natur dotalitaraidd. Ceir cyfle hefyd i ddysgu am wahaniaethu gwrth-Semitig ac erledigaeth yn ogystal ag erledigaeth o leiafrifoedd cenedlaethol. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| **Sgiliau trawsgwricwlaidd – Llythrennedd** | |
|---|---|
| Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys llythrennedd mewn TGAU Hanes. Mae'r cyfleoedd hyn yn cynnwys dadansoddi deunydd ffynhonnell, cyfleoedd ysgrifennu estynedig, datblygu geirfa, dadlau a thrafod. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr oherwydd y byddant yn meithrin sgiliau trawsgwricwlaidd a fydd yn sail i bedwar diben y Cwricwlwm i Gymru, yn ogystal â sgiliau cyfathrebu y gellir eu defnyddio ar draws pynciau gan eu paratoi ar gyfer addysg neu gyflogaeth yn y dyfodol.<br><br>Isod mae rhai enghreifftiau o'r ffordd y gellid ymgorffori Llythrennedd yn yr addysgu a dysgu ar gyfer TGAU Hanes. | |
| | |
| Gwrando | Caiff dysgwyr y cyfle i asesu cywirdeb a dibynadwyedd deunydd ffynhonnell a rhannu safbwyntiau drwy drafodaeth a dulliau cwestiynu llafar wrth gael eu haddysgu am gynnwys y fanyleb. |
| | **Enghreifftiau** |
| | • Caiff dysgwyr eu hannog i ddadlau ac ymateb i safbwyntiau eraill.<br>• Caiff dysgwyr gyfleoedd i wrando ar bodlediadau a recordiadau i ddatblygu eu geirfa a meithrin eu sgiliau gwrando.<br>• Mae'r defnydd o hanes llafar a chyfweliadau yn meithrin sgiliau gwrando a'r gallu i ymateb i eraill yn briodol.<br>• Caiff dysgwyr y cyfle i rannu ac ymateb i gyflwyniadau gan eu cyfoedion. |
| | |
| Darllen | Caiff dysgwyr y cyfle i ddarllen deunydd ffynhonnell cyfoes ynghyd ag amrywiaeth o ddehongliadau hanesyddol, cyn gwerthuso'r ffynonellau yn feirniadol, dadansoddi eu cynnwys a chymharu a chyferbynnu ffynonellau sy'n canolbwyntio ar y dehongliad a roddir ganddynt o ddigwyddiadau. |
| | **Enghreifftiau** |
| | • Gall dysgwyr ddefnyddio amrywiaeth o dechnegau darllen fel sgimio a sganio neu ddarllen ar gyfer pwrpas.<br>• Darllen darnau o amrywiaeth eang o ffynonellau fel areithiau, erthyglau, darnau o ddyddiaduron, cofnodion hanesyddol a phapurau newydd.<br>• Cymharu a chyferbynnu cynnwys ffynonellau hanesyddol.<br>• Asesu dibynadwyedd a chywirdeb y testun i feithrin y sgìl o ddarllen yn feirniadol. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | |
|---|---|
| Siarad | Caiff dysgwyr y cyfle i feithrin eu dealltwriaeth o safbwyntiau a chynnwys drwy ddadlau, trafod, cyflwyniadau a gwaith grŵp.<br>**Enghreifftiau**<br>• Dadlau'r rheswm pwysicaf pam y digwyddodd digwyddiad.<br>• Gofyn cwestiynau er mwyn egluro a meithrin dealltwriaeth.<br>• Gall dysgwyr feithrin sgiliau siarad drwy waith grŵp a gwaith mewn parau. |
| | |
| Ysgrifennu | Caiff dysgwyr y cyfle i ddefnyddio amrywiaeth o eirfa pwnc benodol, iaith idiomatig a gallu cyflwyno eu gwaith yn ddigidol. Cânt gyfleoedd hefyd i fyfyrio ar strwythur a chynnwys eu gwaith hysgrifennu.<br>**Enghreifftiau**<br>• Dangos esiamplau o atebion drwy weithgareddau athro, cyfoedion a hunanasesu.<br>• Caiff dysgwyr y cyfle i ddefnyddio amrywiaeth eang o arddulliau ysgrifennu fel ffurfiol, anffurfiol a pherson cyntaf. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

<table>
<tr><th colspan="2">Sgiliau trawsgwricwlaidd – Rhifedd</th></tr>
<tr><td colspan="2">Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Rhifedd mewn TGAU Hanes, er enghraifft dadansoddi newid yn y boblogaeth, dehongli ystadegau mewn ffynonellau cynradd ac eilaidd, dadansoddi graffiau a llinellau amser ac ymdrin â chysyniadau fel ymwybyddiaeth gronolegol. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr am eu bod yn eu galluogi i roi digwyddiadau mewn cyd-destun a meintioli newid. Gall dysgwyr lunio casgliadau seiliedig ar dystiolaeth sy'n seiliedig ar ystadegau a data rhifiadol.<br><br>Isod mae rhai enghreifftiau o sut y gellid ymgorffori Rhifedd yn yr addysgu a'r dysgu ar gyfer TGAU Hanes.</td></tr>
<tr><td colspan="2"></td></tr>
<tr><td rowspan="3">Mae dysgu am geometreg yn ein helpu ni i ddeall siâp, gofod a safle, ac mae dysgu am fesur yn ein helpu i feintioli yn y byd go iawn</td><td>Caiff dysgwyr gyfleoedd i ddadansoddi mapiau i ddeall twf a datblygiad ymerodraethau neu gynrychioliad daearyddol o ryfeloedd.</td></tr>
<tr><td>Enghreifftiau</td></tr>
<tr><td>• Gall dysgwyr ddadansoddi mapiau, strwythurau ac arteffactau.<br>• Yna, gall dysgwyr ddadansoddi prosesau rhannu tir a chynllunio trefol.<br>• Ceir cyfleoedd i ddadansoddi strategaethau a chaerau milwrol.</td></tr>
<tr><td colspan="2"></td></tr>
<tr><td rowspan="3">Mae dysgu bod ystadegau yn cynrychioli data a bod tebygolrwydd yn modelu siawns yn ein helpu ni i ddod i gasgliadau ac i wneud penderfyniadau gwybodus</td><td>Caiff dysgwyr gyfleoedd i archwilio neu ddadansoddi data a graffiau drwy ddadansoddi ffynonellau.</td></tr>
<tr><td>Enghreifftiau</td></tr>
<tr><td>• Gall dysgwyr ddadansoddi data i lunio casgliadau ar ystadegau fel twf poblogaeth, costau ac ehangu tir.<br>• Gellir dehongli deunydd eilaidd fel graffiau a siartiau.<br>• Ceir cyfleoedd i ddysgwyr greu eu cynrychioliadau rhifyddol eu hunain o'r data a gasglwyd.</td></tr>
</table>

© WJEC CBAC Ltd. 2025

<table>
<tr><th colspan="2">Sgiliau Trawsgwricwlaidd – Cymhwysedd Digidol</th></tr>
<tr><td colspan="2">Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys cymhwysedd digidol mewn TGAU Hanes. Gall dysgwyr ddefnyddio technoleg ddigidol i gael gafael ar amrywiaeth eang o ffynonellau hanesyddol ac i ymchwilio i destun hanesyddol. Caiff dysgwyr y cyfle hefyd i feithrin eu sgiliau digidol wrth baratoi a chwblhau eu hasesiadau di-arholiad. Bydd y cyfleoedd hyn yn galluogi dysgwyr i feithrin sgiliau trawsgwricwlaidd sy'n ategu pedwar pwrpas y cwricwlwm, ynghyd â galluogi mynediad pellach i wybodaeth hanesyddol wrth feithrin sgiliau meddwl yn feirniadol ac ymwybyddiaeth foesegol presennol ac ar gyfer y dyfodol.<br><br>Isod mae rhai enghreifftiau o sut y gellir ymgorffori cymhwysedd digidol yn yr addysgu a dysgu ar gyfer TGAU Hanes.</td></tr>
<tr><td colspan="2"></td></tr>
<tr><td rowspan="3">Dinasyddiaeth</td><td>Bydd dysgwyr yn meithrin dealltwriaeth o bwysigrwydd priodoliadau, gan gynnwys defnyddio adnoddau mewn fformatau digidol fel e-lyfrau ac erthyglau ar-lein. Bydd yn ofynnol i ddysgwyr fynd i'r afael â phriodoliadau wrth ddadansoddi eitemau ar gyfer eu hymchwiliad hanesyddol a meddwl yn feirniadol am awduron tystiolaeth ddigidol.</td></tr>
<tr><td>Enghraifft</td></tr>
<tr><td>Dylid sicrhau bod dysgwyr yn ymwybodol o hawlfraint a llên-ladrad wrth edrych ar dystiolaeth hanesyddol ac wrth ddatblygu a chyflwyno eu dadleuon eu hunain mewn perthynas â thestun.</td></tr>
<tr><td colspan="2"></td></tr>
<tr><td rowspan="3">Rhyngweithio a Chydweithio</td><td>Gall dysgwyr gydweithio (yn ddigidol) ar dasgau wrth baratoi ar gyfer yr arholiad. Gallai hyn gynnwys asesiadau cyfoedion, ymateb i adborth yr athro neu greu gwaith.</td></tr>
<tr><td>Enghraifft</td></tr>
<tr><td>Mewn grwpiau, gallai dysgwyr ymchwilio i destun er mwyn cyflwyno maes astudiaeth a'i gyflwyno.</td></tr>
<tr><td colspan="2"></td></tr>
<tr><td rowspan="3">Cynhyrchu</td><td>Caiff dysgwyr gyfleoedd i ymchwilio i amrywiaeth o ffynonellau yn ddigidol.</td></tr>
<tr><td>Enghraifft</td></tr>
<tr><td>• Defnyddio archifau cenedlaethol a rhyngwladol i ddod o hyd i ddeunyddiau ffynhonnell sy'n cysylltu â'r maes astudiaeth.</td></tr>
</table>

© WJEC CBAC Ltd. 2025

<table>
<tr><th colspan="2">Sgiliau Cyfannol</th></tr>
<tr><td rowspan="3">Creadigrwydd ac Arloesi</td><td>Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys creadigrwydd ac arloesi mewn TGAU Hanes. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr er mwyn iddynt ymddiddori mwy yn y gwersi a mwynhau dysgu drwy dasgau sy'n eu hysgogi. Caiff dealltwriaeth ddyfnach ei meithrin drwy annog dysgwyr i gymryd rôl weithredol yn eu dysgu.</td></tr>
<tr><td>Enghreifftiau</td></tr>
<tr><td><ul><li>Bydd dysgwyr yn dangos creadigrwydd wrth ddatblygu ymatebion, mynegi eu barn am faterion hanesyddol perthnasol a gwerthuso ffynonellau a thystiolaeth yn feirniadol mewn asesiadau.</li><li>Caiff dysgwyr gyfleoedd i fod yn greadigol ac i arloesi wrth gyflwyno gwybodaeth a chanfyddiadau.</li></ul></td></tr>
<tr><td colspan="2"></td></tr>
<tr><td rowspan="3">Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau</td><td>Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys meddwl yn feirniadol a datrys problemau mewn TGAU Hanes. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr am eu bod yn datblygu'r gallu i feddwl yn ddadansoddol, ac i gasglu tystiolaeth, myfyrio arni a'i gwerthuso'n feirniadol er mwyn llunio barn wybodus ar amrywiaeth o destunau. Gellir cymhwyso'r sgìl hwn i senarios bywyd go iawn.</td></tr>
<tr><td>Enghreifftiau</td></tr>
<tr><td><ul><li>Caiff dysgwyr gyfleoedd i ofyn cwestiynau ystyrlon ar ddeunydd ffynhonnell a dehongliadau hanesyddol, ac i'w gwerthuso fel rhan o'u proses o ddatblygu dadleuon beirniadol perthnasol.</li><li>Bydd dysgwyr yn datblygu eu gallu i weld materion o sawl safbwynt.</li><li>Drwy astudio parhad a newid dros amser, bydd dysgwyr yn meithrin eu sgiliau datrys problemau y gallant eu cymhwyso yn eu bywydau yn y dyfodol.</li><li>Bydd dysgwyr yn gwerthuso ffynonellau a dehongliadau hanesyddol o ran dibynadwyedd, rhagfarn a phwrpas.</li><li>Mae meddwl yn feirniadol a datrys problemau yn annog dysgu annibynnol ac yn hyrwyddo'r gallu i ddod i benderfyniadau rhesymol a gwybodus mewn agweddau eraill ar fywyd fel addysg bellach neu waith.</li></ul></td></tr>
</table>

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | |
|---|---|
| Cynllunio a Threfnu | Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys cynllunio a threfnu mewn TGAU Hanes. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr am fod y sgiliau cyfannol hyn yn galluogi dysgwyr i ymgysylltu â'r gorffennol, dadansoddi gwybodaeth a chyfathrebu â'u canfyddiadau, sydd wedyn yn galluogi dysgwyr i wella eu dealltwriaeth academaidd a'u paratoi i gymhwyso gwybodaeth hanesyddol mewn cyd-destunau modern.<br><br>Isod mae rhai enghreifftiau o sut y gellid ymgorffori Cynllunio a Threfnu yn yr addysgu a'r dysgu ar gyfer TGAU Hanes. |
| | **Enghraifft** |
| | • Caiff dysgwyr gyfleoedd i gynllunio ac yna gwblhau eu hymateb i gwestiwn ymholi. |
| | |
| Effeithiolrwydd Personol | Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys effeithiolrwydd personol mewn TGAU Hanes. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr am eu bod yn datblygu gwydnwch a'r gallu i weithio'n effeithiol. Mae hyn yn helpu i feithrin sgiliau rheoli amser dysgwyr a'r gallu i flaenoriaethu tasgau, gan wella gallu dysgwyr i ddod yn unigolion hyblyg. |
| | **Enghreifftiau** |
| | • Bydd dysgu am destunau a allai fod yn sensitif yn galluogi dysgwyr i ddatblygu eu deallusrwydd emosiynol a'u hymwybyddiaeth hanesyddol.<br>• Bydd cyfleoedd i gael asesiadau gan gyfoedion, hunanasesiadau ac asesiadau gan athrawon yn annog dysgwyr i ddatblygu strategaethau effeithiol i wella eu gwaith.<br>• Cydweithio ar dasg ymchwil neu gyflwyniad.<br>• Datblygu gwydnwch drwy adolygu ac ailfodelu atebion.<br>• Mae cyfleoedd i ddysgwyr fynegi eu barn am faterion hanesyddol perthnasol, deunyddiau ffynhonnell cyfoes a dehongliadau hanesyddol. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

## Rhestr termau ar gyfer Opsiwn 3.5 Rwsia a'r Undeb Sofietaidd, tua 1861 - tua 1953

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| Awtocratiaeth | System lywodraethu lle mae gan un unigolyn yr holl rym. |
| Bolsiefigiad | Rwsieg am "leiafrif" yn dynodi'r lleiaf o ddau grŵp a ddaeth i'r amlwg yn dilyn y rhaniad ym Mhlaid Lafur Ddemocrataidd Gymdeithasol Rwsia yn 1903. |
| Imperialaeth | Term a ddefnyddir i ddisgrifio tra-arglwyddiaeth un genedl dros genedl arall neu genhedloedd eraill sy'n methu gwrthwynebu'r genedl gryfach. Gall tra-arglwyddiaeth fod ar ffurf rheolaeth ddiwylliannol yn ogystal â hanes gwleidyddol – crefyddol – darostyngiad ieithyddol – gweler "Rwsianeiddio" isod. |
| Marcsaeth | System o drefniadaeth wleidyddol, economaidd a chymdeithasol lle mae pob math o berchenogaeth breifat yn cael ei diddymu a lle mae pob math o gynhyrchu a dosbarthu (diwydiannol ac amaethyddol) yn eiddo ar y cyd i'r holl bobl. |
| Menshevik | Rwsieg am "mwyafrif" sy'n dynodi'r mwyaf o'r ddau grŵp a ddaeth i'r amlwg yn dilyn y rhaniad ym Mhlaid Lafur Ddemocrataidd Gymdeithasol Rwsia yn 1903. |
| Rwsianeiddio | Polisi o gymhathiad diwylliannol lle gwnaeth pobl nad oeddent yn Rwsiaid o dan dra-arglwyddiaeth ymerodrol ildio – naill ai'n wirfoddol neu dan orfodaeth – eu hiaith a'u traddodiadau diwylliannol eu hunain o blaid yr iaith Rwseg a diwylliant Rwsia. Cafodd y polisi hwn ei fabwysiadu yn Rwsia Ymerodrol a'r Undeb Sofietaidd. |
| Totalitaraidd | System lle caiff pob agwedd ar fywyd – gwleidyddol, cymdeithasol ac economaidd eu rheoli gan egwyddorion ideolegol llym drwy un blaid wleidyddol heb ganiatáu unrhyw bleidiau gwleidyddol gwrthwynebol. Gall union natur yr egwyddorion ideolegol amrywio o wlad i wlad. |
| Comiwnyddiaeth Ryfel | System economaidd a gwleidyddol a roddwyd ar waith gan y Bolsiefigiaid yn ystod Rhyfel Cartref Rwsia (1918-1921) i gynnal rheolaeth a chynnal ymdrech ryfel y Fyddin Goch. |
| Zemstvos | Sefydliadau llywodraeth leol a sefydlwyd yn Ymerodraeth Rwsia yn 1864 fel rhan o Ddiwygiadau Mawr Alexander II. Roeddent wedi'u cynllunio i ddarparu hunan-lywodraethedd gyfyngedig ar lefelau dosbarth a rhanbarthol, yn arbennig mewn ardaloedd gwledig, gyda'r nod o fynd i'r afael â materion gweinyddol ac economaidd lleol. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025